

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad Assembly Commission Audit & Risk Assurance Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Dyddiad: 10 Tachwedd 2014
Amser: 9.00 – 15.00
Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B, Tŷ Hywel



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2014

Yn bresennol:

Aelodau

Eric Gregory (Cynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor)
Keith Baldwin (Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor)
Hugh Widdis (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor)

Swyddogion

Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc, a'r Swyddog Cyfrifyddu
Dave Tosh, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad a TGCh dros dro
Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol
Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid
Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
Mike Snook, Pennaeth Pobl a Lleoedd (eitem 4)
Lowri Williams (Pennaeth Adnoddau Dynol) (eitem 4)
David Melding AC, y Dirprwy Lywydd (eitem 7)
Rhodri Glyn Thomas AC, Comisiynydd y Cynulliad (eitem 7)
Anna Daniel, Pennaeth y Rhaglen Trawsnewid Strategol (eitemau 7 ac 8)
Suzanne Scarlett, Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid Strategol (eitem 7)
Kathryn Hughes, Clerc y Pwyllgor
Buddug Saer, Dirprwy Clerc y Pwyllgor
Virginia Hawkins, Pennaeth Llywodraethu (eitemau 6 ac 8)

Ymddiheuriadau:

Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru
Angela Burns (Aelod Cynulliad a Chomisiynydd)

1.0 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

Eitem 1 – Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

1.2 Datganodd y Cadeirydd ei fod ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar y Rhaglen Trawsnewid Cofrestru Etholiadol, a byddai cyflwyniad ar y rhaglen yn y cyfarfod hwn.

1.3 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau eraill.

2.0 Cofnodion a materion yn codi

Eitem 2 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2014, camau gweithredu a materion yn codi.

ACARAC (25) Papur 1 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2014

ACARAC (25) Papur 2 – Crynodeb o'r camau gweithredu

2.1 Cytunwyd ar y cofnodion a rhoddodd swyddogion y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol am y camau gweithredu sydd heb eu cymryd.

2.2 Rhoddodd Dave Tosh y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol am y camau i gyflymu'r gwaith Parhad Busnes ac ystyried dull Senedd yr Alban o ymgysylltu â'i Aelodau:

- byddai'r hyn a ddysgwyd o ymarferion desg, a gynhaliwyd gyda 10 o 12 maes gwasanaeth i brofi eu cynlluniau Parhad Busnes, yn cael ei ddefnyddio i lywio gwelliannau i'r cynlluniau hynny;
- roedd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer rhagor o hyfforddiant ar reoli digwyddiadau gan dimau strategol a thactegol cyn y gellid profi ar lefel gorfforaethol. Roedd hyn wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2015; a
- byddai cyngor gan Senedd yr Alban a Chyngor Caerdydd yn llywio'r dull o ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad.

2.3 Sicrhaodd Dave a Claire y Pwyllgor nad oedd y ffaith bod y dyddiad cau ar gyfer profi corfforaethol wedi ei ymestyn i fis Ebrill 2015 yn gwneud y Comisiwn yn fwy agored, gan fod rheolaethau a dulliau wrth gefn sydd wedi'u profi, ar waith i ymateb i ystod o ddigwyddiadau. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r rhan fwyaf o argymhellion yr archwiliad wedi eu cwblhau erbyn mis Chwefror.

2.4 Byddai'r holl gamau gweithredu eraill yn cael eu cynnwys fel eitemau agenda yn y cyfarfod hwn, neu gyfarfodydd yn y dyfodol.

3.0 Archwilio Mewnol

Eitem 3 – Adroddiad Gweithgarwch Archwilio Mewnol

ACARAC (25) Papur 3 - Adroddiad cynnydd o ran Rhaglen Archwilio Mewnol 2014-15

ACARAC (25) Papur 4 - Argymhellion Archwilio Mewnol - Monitro

- 3.1 Rhoddodd Gareth Watts y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn rhaglen waith 2014-15 a oedd ar y trywydd iawn ar gyfer ei chyflwyno. Hefyd, rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithgareddau eraill fel presenoldeb yng nghyfarfodydd y bwrdd prosiect.
- 3.2 Dywedodd fod cynnydd da wedi ei wneud o ran gweithredu'r argymhellion a fyddai'n cael eu dilyn maes o law.
- 3.3 Rhoddodd Dave Tosh y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad o lywodraethu gwybodaeth, lle canolbwyntiwyd ar ddatrys materion ymarferol fel diogelwch asedau symudol a storio gwybodaeth. Gofynnodd y Pwyllgor am gyflwyniad ar y Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf.
- 3.4 Cadarnhaodd Gareth fod yr adolygiad o ddiogelwch ffisegol ar fin cael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf a chytunodd i ddsbarthu'r adroddiad i aelodau'r Pwyllgor ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.
- 3.5 Llongyfarchodd y Cadeirydd Kathryn Hughes, Rheolwr Risg y Comisiwn, ar y farn "gref" ar reolaethau'n ymwneud â rheoli risg.

Camau gweithredu

- Gareth Watts i ddogfennu'n ffurfiol yr adborth a gafwyd gan aelodau'r Pwyllgor ar adroddiadau a ddsbarthwyd yn ystod yr haf, a'i ymatebion i hyn. Yr adborth a'r ymatebion i gael eu cadw fel mater o drefn yn y dyfodol ar gyfer adroddiadau a ddsberthir y tu allan i'r pwyllgor.
- Dave Tosh i roi cyflwyniad ar y Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth yng nghyfarfod mis Chwefror.
- Gareth Watts i ddsbarthu'r adroddiad ar yr adolygiad o ddiogelwch ffisegol pan fydd wedi'i gwblhau.

4.0 Eitem 4 - Yr adroddiad archwilio mewnol diweddaraf

ACARAC (25) Papur 5 - Adroddiad ar Reoli Asedau Sefydlog

ACARAC (25) Papur 6 - Adroddiad Dilydol - Rheoli Contractau Cyfleusterau

ACARAC (25) Papur 7 - Recriwtio

ACARAC (25) Papur 8 - Adolygiad o'r prosiect Cyflogres/Adnoddau Dynol

ACARAC (25) Papur 8a - Adolygiad o'r prosiect Cyflogres/Adnoddau Dynol - cyflwyniad

ACARAC (25) Papur 8b - Adolygiad o'r prosiect Cyflogres/Adnoddau Dynol - adroddiad

- 4.1 Cyflwynodd Gareth yr adroddiad ar yr adolygiad o reoli asedau sefydlog. Mae'r holl argymhellion wedi cael eu derbyn ynghyd â'r adroddiad dilynol ar yr adolygiad o reoli contractau cyfleusterau.
- 4.2 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor mewn perthynas ag asedau sefydlog, sicrhaodd Nicola Callow y pwyllgor:
 - a. y byddai cyfrifydd y Comisiwn yn gweithio gyda TGCh i nodi asedau yr oedd angen eu cyfalafu;
 - b. y byddai asedau dros £5,000 yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad interim o'r cyfrifon;
 - c. y byddai rhifau cyfresol pob ased yn cael eu cofnodi cyn diwedd y flwyddyn; a
 - d. bod asesiad o fod yn agored i risg o ran prydlesi wedi ei gynnal i baratoi ar gyfer unrhyw effaith.
- 4.3 Cyflwynodd Gareth yr adroddiad ar yr adolygiad recriwtio a gynhaliwyd mewn ymateb i gais gan y Prif Weithredwr.
- 4.4 Sicrhaodd Claire y Pwyllgor fod canlyniadau'r archwiliad yn cael eu defnyddio i lywio cyfres o welliannau. Byddai hyn yn cynnwys:
 - a. datblygiad, gan y Bwrdd Rheoli, set o egwyddorion yn ymwneud â gwneud penderfyniadau ar gyfer recriwtio;
 - b. sicrhau bod y polisiau, y prosesau a'r canllawiau yn gydlynol, yn hygyrch, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod staff yn eu deall;
 - c. sicrhau bod y broses o fabwysiadu'r egwyddorion a'r polisiau, a'r rhesymau dros benderfyniadau'n ymwneud ag ymarferion recriwtio yn dryloyw;
 - d. sicrhau bod adolygiadau trylwyr yn cael eu cynnal ar gyfer pob ymarfer recriwtio a fyddai'n cynnwys gwiriadau bod cofnodion wedi eu paratoi a'u cadw yn unol â'r rheolau rheoli cofnodion a deddfwriaeth diogelu data; ac

- e. annog gwell perchnogaeth o faterion yn ymwneud â recriwtio, datblygu a pherfformiad gan Benaethiaid Gwasanaeth.
- 4.5 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr ymagwedd hon a phwysleisiwyd pwysigrwydd tryloywder, tegwch, a chadw cofnodion effeithiol.
 - 4.6 Cynigiodd y Cadeirydd hefyd weithio gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol i ddatblygu'r egwyddorion recriwtio ac adolygu'r polisïau a'r prosesau sylfaenol. Byddai'r templed achos busnes recriwtio yn cael ei rannu gydag aelodau'r Pwyllgor.
 - 4.7 Rhoddodd Gareth gyflwyniad am yr adroddiad ar y prosiect Cyflogres/Adnoddau Dynol. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Gareth a Gwyn Thomas, arbenigwr annibynnol.
 - 4.8 Roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar lywodraethu'r prosiect, yn hytrach na swyddogaeth graidd y system. Daeth Gareth i'r casgliad bod y cwmpas yn uchelgeisiol, yr adnoddau'n gyfyngedig, a'r amserlenni'n sefydlog. Roedd y ffactorau hyn yn cyfrannu at oedi wrth gyflwyno cam 1 y prosiect Cyflogres/ Adnoddau Dynol.
 - 4.9 Nid oedd ei adroddiad yn tynnu sylw at unigolion, ond yn amlygu argymhellion ynghylch cwestiynau a allai fod wedi cael eu codi gan y Bwrdd Buddsoddi a'r Bwrdd Rheoli.
 - 4.10 Roedd aelodau'r Pwyllgor yn synnu bod unigolion a oedd ag ychydig neu ddim profiad o reoli prosiectau wedi'u haseinio i'r prosiect pwysig a chymhleth hwn a bod atebion a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd gymaint yn cael eu rhoi i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd i'r tîm prosiect.
 - 4.11 Roedd Claire yn siomedig ac yn rhwystredig nad oedd y prosiect hwn yn cael ei gyflawni i safon arferol prosiectau cymhleth, proffil uchel eraill o fewn y Comisiwn. Sicrhaodd y Pwyllgor y byddai Uwch Swyddogion Cyfrifol a Rheolwyr Prosiectau'n cael eu dethol yn y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau ar gyfer prosiectau o'r maint hwn yn y dyfodol. Cadarnhaodd Claire hefyd y byddai'n ysgrifennu at yr holl Uwch Swyddogion Cyfrifol newydd, gan nodi ei disgwyliadau ohonynt a byddai'n penodi mentoriaid lle byddai hynny'n briodol.
 - 4.12 Diolchodd y Cadeirydd i Gareth am ei gyflwyniad a phwysleisiodd wrth swyddogion na ddylai cam 2 fwrw ymlaen heb graffu'n llawn ar y Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID). Dylai tîm y prosiect fanteisio ar waith craffu allanol er mwyn sicrhau llwyddiant yn well.

- 4.13 Cytunwyd fod yn rhaid cwblhau pob argymhelliad archwilio mewnol o flynyddoedd blaenorol erbyn cyfarfod mis Chwefror.

Camau gweithredu

- Nicola Callow i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gofnodi rhifau cyfresol ar yr holl asedau sefydlog yng nghyfarfod mis Chwefror.
- Mike Snook i ddsbarthu'r templed achos busnes recriwtio i aelodau'r Pwyllgor.
- Mike Snook i ymgysylltu ag aelod o'r pwyllgor i ddarparu gwaith craffu allanol ar gyfer cam 2 y prosiect Adnoddau Dynol / Cyflogres, gan gynnwys adolygu'r Ddogfen Cychwyn Prosiect.
- Mike Snook i adrodd yn ôl am y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion ar gyfer cam 1 y prosiect Adnoddau Dynol / Cyflogres.
- Gareth Watts i adrodd ar gymeradwyo'r holl argymhellion archwilio mewnol o flynyddoedd blaenorol yng nghyfarfod mis Chwefror.

5.0 Eitem 5 – Y wybodaeth ddiweddaraf am archwilio allanol

ACARAC (25) Papur 9 – Llythyr Rheoli 2013-14

ACARAC (25) Papur 10 – Amlinelliad Archwilio Blynyddol 2014-15

- 5.1 Cyflwynodd Mark Jones yr eitem hon a chadarnhaodd fod y prosiect twyll cyflenwyr a'r prosiect Cyflogres/Adnoddau Dynol wedi'u cynnwys yn llawn yn Llythyr Rheoli 2013-14.
- 5.2 Holodd y Pwyllgor ynglŷn â'r cynnydd o ran cael system newydd yn lle'r system cyllid CODA. Cadarnhaodd Mark fod sicrwydd cyffredinol o ran pa mor agored i risg roedd y Cynulliad a chytunodd Nicola i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn llawn i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Chwefror.
- 5.3 Soniodd Mark am rai newidiadau i dîm archwilio Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol a chytunodd i roi gwybod i Claire am y newidiadau hyn.

Camau gweithredu

- Nicola Callow i roi gwybod i aelodau'r Pwyllgor am ymateb y Pwyllgor Cyllid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ffi archwilio 2015-16 (i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid ar ddiwedd mis Tachwedd).
- Gareth Watts i drafod y sylw a roddir i archwilio rheolaethau ariannol gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

- Nicola Callow i sicrhau bod yr holl argymhellion sydd heb eu gweithredu yn cael eu cymeradwyo yn y Llythyr Rheoli mewn da bryd cyn diwedd y flwyddyn.
- Nicola Callow i gyflwyno cynlluniau wrth gefn ar gyfer y system CODA.

6.0 Eitem 6 - Llywodraethu Comisiwn y Cynulliad

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gyllideb (Nicola Callow)

ACARAC (25) Papur 11 - Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gyllideb

ACARAC (25) Papur 11a - Cyllideb derfynol a osodwyd

Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn

ACARAC (25) Papur 12 - Fframwaith Sicrwydd Comisiwn y Cynulliad

ACARAC (25) Papur 12a - Map Sicrwydd Comisiwn y Cynulliad

Chwythu'r Chwiban

ACARAC (25) Papur 13 - Polisi Chwythu'r Chwiban - papur eglurhaol

ACARAC (25) Papur 13a - Polisi Chwythu'r Chwiban

- 6.1 Cyflwynodd Nicola Callow yr eitem ar sefyllfa cyllideb 2014/15 a dogfen cyllideb derfynol 2015/16.
- 6.2 Dywedodd Nicola fod yr alldro a ragwelir ar hyn o bryd yn danwariant o £200K-£300K ond byddai'r ffigur hwnnw'n newid wrth i ddiwedd y flwyddyn ddynesu. Caiff dogfen y gyllideb ar gyfer 2015/16 ei gosod ar 12 Tachwedd.
- 6.3 Sicrhaodd Nicola y Pwyllgor fod cyllideb 2015/16 yn adlewyrchu sefyllfa gyffredinol grant Bloc Cymru h.y. 1% o ostyngiad mewn termau real a bod gwahanol sefyllfaoedd yn cael eu hystyried er mwyn helpu i baratoi ar gyfer canlyniadau posibl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2015.
- 6.4 Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am i ddadansoddiad o'r arbedion Gwerth am Arian, sy'n dangos arbedion staff ac arbedion heblaw staff, gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn.
- 6.5 Cyflwynodd Gareth Watts yr eitem ar Fframwaith Sicrwydd Comisiwn y Cynulliad.
- 6.6 Roedd y Pwyllgor yn falch o weld y gwaith yn dod i ben a gofynnodd am gael gweld y drafft terfynol yn y cyfarfod nesaf. Gwnaethant yr argymhellion a ganlyn:

- y dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud ar sicrwydd hefyd nodi unrhyw ddyblygu neu ormodedd o sicrwydd;
- dylid amlygu'r cryfderau a'r diffygion yn y fframwaith;
- dylai'r fframwaith gyfeirio at fframwaith yr achos busnes;
- dylid cyhoeddi map sicrwydd sy'n dangos statws RAG ar gyfer pob math o sicrwydd; a
- dylid meddwl sut i ddangos yr effeithiolrwydd parhaus hwnnw o sicrwydd o fewn y Cynulliad.

6.7 Cyflwynodd Gareth Watts y polisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig.

6.8 Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar yr angen am eglurder ynghylch pwy mae'r polisi'n ei gynnwys a'r linc i'r weithdrefn gwyno. Roeddent yn cytuno y dylid cwblhau a chyhoeddi'r polisi cyn gynted â phosibl.

7.0 Cyflwyniad gan Colin Dingwall, Cyfarwyddwr Rhaglen, Cofrestru Etholiadol Unigol (IER)

7.1 Croesawodd y Cadeirydd David Melding AC, Rhodri Glyn Thomas AC, Anna Daniel a Suzanne Scarlett a chyflwynodd Colin Dingwall i'r Pwyllgor.

7.2 Mae Colin wedi bod yn Gyfarwyddwr y Rhaglen ers ei sefydlu. Disgrifiodd y canlynol:

- hanfodion y rhaglen, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn;
- rheolaeth gymhleth rhanddeiliaid gyda Gweinidogion, y Comisiwn Etholiadol ac Awdurdodau Lleol ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban;
- y dulliau profi capasiti a ddefnyddir, e.e. profion llwyth sylweddol o'r seilwaith TG;
- adnabod gwendidau a phwyntiau methiant unigol lle mae angen gweithio gyda nifer o gadwyni cyflenwi;
- pwysigrwydd meini prawf 'mynd yn fyw' cynhwysfawr; a
- chyfnodau olaf y rhaglen gan gynnwys canolbwyntio ar wireddu buddiannau.

- 7.3 Tynnodd Colin sylw at fanteision gwaith craffu allanol drwy gydol y rhaglen. Bu darparu adnoddau yn fater allweddol drwy gydol y rhaglen, gyda'r angen am arbenigedd allanol uwch ar gyfer rhai rolau allweddol gan gynnwys Swyddfa Rheoli'r Rhaglen (PMO). Roedd staff mewnol wedi elwa o'r arbenigedd hwn a chafodd gwybodaeth ei throsglwyddo.
- 7.4 Atebodd Colin gyfres o gwestiynau a chynigiodd rhoi rhagor o gefnogaeth ac arweiniad i'r Comisiwn yn y dyfodol.
- 7.5 Diolchodd y Pwyllgor i Colin am ei gyflwyniad cynhwysfawr a diddorol.

8.0 Trafodaeth Strategol Ehangach

Adolygiad llawn o Risgiau Corfforaethol y Comisiwn

ACARAC (25) Papur 14 - Risgiau Corfforaethol

ACARAC (25) Papur 14a -Atodiad A - Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol

ACARAC (25) Papur 14b - Atodiad B - Risgiau Corfforaethol sydd wedi'u nodi

ACARAC (25) Papur 14c - Atodiad C - Risgiau Statig

Trafodaeth ar fater cyfoes neu risg sy'n dod i'r amlwg

Newid cyfansoddiadol yn y dyfodol

Eitemau eraill

Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol y Comisiwn

ACARAC (25) Papur 15 - Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol

- 8.1 Cyflwynodd Claire yr eitem ar Risg Corfforaethol a thynnodd sylw at y penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Rheoli.
- 8.2 Trafododd aelodau'r Pwyllgor y risgiau corfforaethol a statig a'r ffordd y caiff y risgiau eu hadolygu. Gwnaethant yr argymhellion a ganlyn:
- dylid nodi risgiau a materion a sefydlu cofrestrï ar wahân i bob un;
 - dylid fformatio risgiau corfforaethol a statig a'u cyflwyno yn yr un modd; a
 - dylid ystyried ychwanegu risg gorfforaethol at reoli prosiectau a rhaglenni.
- 8.3 Cafwyd trafodaeth ynghylch y risg o ran capasiti corfforaethol a sut yr ymdrinnir â hynny. Awgrymwyd y dylid ymestyn yr amserlen ar

gyfer cael gwared ar y risg i adlewyrchu lefel y gwaith a'r newid yn y Cynulliad.

- 8.4 Cyflwynodd Claire yr adroddiad perfformiad corfforaethol er gwybodaeth.
- 8.5 Croesawodd y Cadeirydd Anna Daniel i'r drafodaeth ar Newid Cyfansoddiadol yn y Dyfodol.
- 8.6 Eglurodd Claire y newidiadau ers 2011. Cyflwynwyd y llinell amser ganlynol:
- Sefydlu Comisiwn Silk (cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2012);
 - dadleuon dilynol yn Nhŷ 'r Cyffredin a Thŷ 'r Arglwyddi;
 - Bil Cymru i gael Cydsyniad Brenhinol erbyn mis Mai 2015. Byddai pwerau ariannol a diwygio etholiadol yn dilyn yn y blynyddoedd i ddod.
- 8.7 Disgrifiodd Anna'r gwaith cynllunio capasiti y mae'r Gwasanaeth Trawsnewid Strategol yn ei wneud ar gyfer Aelodau Cynulliad ychwanegol. Roedd y rhaglen ddeddfwriaethol gyfredol yn hynod heriol a'r pwysau ar yr Aelodau Cynulliad presennol yn uchel. Roedd cynigion a oedd yn cynnwys cynllunio sefyllfaoedd i gael eu trafod yng nghyfarfod nesaf Comisiwn y Cynulliad.
- 8.8 Cynghorodd aelodau'r Pwyllgor Claire ac Anna fod angen gwneud mwy na dim ond dyblygu strwythurau a gwasanaethau presennol i fodloni anghenion Aelodau ychwanegol. Byddai cynllunio sefyllfaoedd mewn manylder ac adolygu prosesau busnes yn allweddol, gan gael eu llywio'n rhannol gan y newidiadau yn neddfwrfeydd yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac ymgysylltu rhagor â hwy.

9.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Arolwg Effeithiolrwydd

Perthynas y Pwyllgor â'r Comisiwn

Anghenion datblygu Aelodau'r Pwyllgor

ACARAC (25) Papur 16 - Y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gweithredu Canlyniadau Arolwg Effeithiolrwydd ACARAC 2014

- 9.1 Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynllun gweithredu. Roedd wedi bod yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf a byddai'n trafod cyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol gyda Claire.

- 9.2 Cytunodd Eric a Gareth i edrych ar opsiynau hyfforddi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a dosbarthu unrhyw wybodaeth berthnasol i'r aelodau.

Camau gweithredu

- Gareth Watts ac Eric Gregory i drafod ystyriaeth ar y cyd y Pwyllgor o ganllawiau newydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol / Trysorlys Ei Mawrhydi.
- Eric Gregory a Claire Clancy i drafod cyfleoedd i aelodau Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad gysylltu â thimau'r Comisiwn.

10.0 Papur i'w nodi ac unrhyw fater arall

ACARAC (25) Papur 17 - Crynodeb o'r ymadawiadau

ACARAC (25) Papur 18 - Y flaenraglen waith

- 10.1 Gofynnodd Claire i aelodau'r Pwyllgor nodi bod ymadawiad wedi ei gymeradwyo'n anghywir gan swyddog. Cafodd ei lofnodi gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol ers hynny.
- 10.2 Byddai'r tîm clericio'n dosbarthu Blaenraglen Waith mis Chwefror gyda'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 9 Chwefror 2015.